# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Danybryn**

**Danybryn Cheshire Home**
**Heol Isaf Radur**
**Caerdydd**
**CF15 8AJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

3/10/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Danybryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 6 Chwefror 2020 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn Danybryn ac yn derbyn gofal da gan staff sy'n deall eu hanghenion. Mae'r bobl yn byw bywydau cyflawn ac yn cael cynnig dewis ac yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu bywydau eu hunain. Mae'r dogfennau gofal yn drylwyr, yn gadarn, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cynnwys llais y person y gofelir amdano. Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol allanol ac yn dilyn unrhyw gyngor neu arweiniad yn ôl yr angen. Mae’r prosesau meddyginiaeth yn ddiogel ac yn gadarn ac yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn Danybryn a chael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio. Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am y tîm rheoli ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae staff asiantaeth yn cael eu cyflogi yn y gwasanaeth oherwydd prinder staff, ond maent yn bwriadu lleihau hyn cyn gynted â phosib. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith yn y gwasanaeth ac mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â gofynion rheoliadol. Mae'r rheolwr yn deall cyfrifoldebau cyfreithiol gofalu am bobl sy'n agored i niwed ac mae'n teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn lân ac yn ddiogel, ond byddai'n elwa o waith ailaddurno drwyddo draw a thacluso cyffredinol. Mae'r bobl yn derbyn gofal yn eu hystafelloedd eu hunain ac mae'r rhain yn bersonol ac yn cynnig cyfleusterau en-suite.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae gan y bobl ymreolaeth dros eu bywydau eu hunain. Mae cynllunio gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar anghenion unigol. Mae’r dogfennau’n amlinellu dymuniadau a theimladau'r bobl yn glir ac yn nodi beth yw eu nodau a’u canlyniadau llesiant. Mae gan y bobl ddewis o fwyd a diodydd ac maent yn rhydd i fwyta prydau yn gymunol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae arferion dyddiol yn bersonol ac mae gan y bobl ddewis eang o weithgareddau yn y cartref a chânt eu cefnogi wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae ymweld â'r cartref wedi ailddechrau. Mae prosesau sicrhau ansawdd yn casglu barn y bobl sy'n byw yn Danybryn ac mae'r unigolyn cyfrifol yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod ymweliadau monitro. Mae'r bobl yn cael eu hysbysu'n llawn am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei dderbyn ac mae proses gwyno os yw'r bobl yn anhapus â'u gofal. Ni chafodd y gwasanaeth unrhyw gwynion ers yr arolygiad diwethaf.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae gan y staff gofal cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl. Mae'r staff gofal yn darparu gofal gydag amynedd, caredigrwydd, ac ymdeimlad gwirioneddol o ofal. Mae staff asiantaeth yn cael eu cyflogi i sicrhau bod lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion y bobl yn ddi-oed, ond mae'r darparwr wrthi'n recriwtio staff i lenwi'r swyddi gwag a lleihau'r defnydd o staff asiantaeth. Mae'r holl staff yn mynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'r swyddi y maent yn eu cyflawni ac yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol yn rheolaidd. Mae'r rheolwr hefyd ar gael i gefnogi'r staff rhwng sesiynau goruchwylio os oes angen. Mae gan y bobl ystafelloedd gwely sengl en-suite sy'n gynnes, yn lân ac yn bersonol ac sydd â lle i fedru bod yn breifat ac i gyflawni gofal personol mewn modd gochelgar.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae gan Danybryn bolisi diogelu cadarn ar waith ac mae'r holl staff yn mynychu hyfforddiant diogelu oedolion mewn perygl o gamdriniaeth, sy'n cael ei adnewyddu'n flynyddol. Mae'r rheolwr yn deall prosesau diogelu ac yn cysylltu â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill yn ôl yr angen. Rhoddir hysbysiadau i ni (Arolygiaeth Gofal Cymru) pan fo angen fel y nodir yn y rheoliadau. Mae prosesau sicrhau ansawdd yn monitro atgyfeiriadau diogelu, damweiniau, digwyddiadau, a chwynion i'r gwasanaeth i sicrhau y gellir gwneud gwelliannau lle bo angen. Cynhelir gwiriadau diogelwch amgylcheddol pan fo angen ac mae peryglon wedi'u lleihau cymaint â phosibl. Mae recriwtio staff yn cael ei wneud mewn modd diogel gyda gwiriadau cyn cyflogi wedi'u cwblhau'n gywir a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r darparwr i wneud ceisiadau adnewyddu'r tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir ar yr amser cywir. Mae cynlluniau gofal personol yn amlinellu anghenion y bobl yn glir a sut y dylid eu diwallu a chaiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn gywir. Mae dogfennau ategol eraill hefyd ar waith megis asesiadau risg a gwybodaeth ychwanegol ynghylch anghenion penodol lle bo angen. Mae'r dogfennau hyn yn hynod o bwysig gan eu bod yn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i ofalu am y bobl. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac maent yn gallu rhagweld anghenion y bobl nad ydynt yn medru gwneud hyn eu hunain. Gwelsom aelod o staff yn cynorthwyo person i fwyta ei frecwast, ac er nad oedd y person yn gallu cyfathrebu ar lafar, gwelsom ryngweithio cadarnhaol gyda gwên a chwerthin. Dangosodd yr aelod o staff garedigrwydd, amynedd a gofal. Mae staff y cartref yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol allanol ac wedi meithrin perthynas dda â'r meddyg teulu lleol. Gwneir atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol pan fo angen ac ychwanegir unrhyw gyngor neu arweiniad at gynlluniau personol sydd yna'n cael ei ddilyn yn gywir. Mae prosesau meddyginiaeth yn ddiogel ac yn gadarn ac mae meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn unol â'r presgripsiwn. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio mewn cypyrddau dan glo yn ystafelloedd y bobl eu hunain sy'n dangos bod y dasg yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Defnyddir system electronig i gofnodi pryd y rhoddir meddyginiaeth ac mae gan y system nodweddion i rybuddio staff pan fydd angen meddyginiaeth ac i gofnodi'r wybodaeth ofynnol mewn modd amserol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr wrth wraidd cynllunio gofal ac yn rhan o brosesau asesu ac adolygu. Mae dogfennau gofal yn amlinellu'n glir hoff bethau a chas bethau'r bobl a sut y maent yn dymuno i'w gofal gael ei ddarparu. Mae'r bobl yn penderfynu pryd i godi yn y bore, pryd i fynd i'r gwely gyda'r nos a sut i dreulio'r amser yn ystod y dydd. Mae gan Danybryn ddewis eang o weithgareddau ar gael gan gynnwys ffilmiau, cwis, gemau, a sesiynau maldodi. Mae ystafell weithgareddau fawr yn y cartref y mae'r bobl yn ei defnyddio i wneud gweithgareddau fel celf a chrefft, gwrando ar gerddoriaeth a chwarae dartiau. Anogir y bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunol ac mae cerbydau i fynd â phobl lle mae angen iddynt fynd. Mae gan y bobl ddewis o brydau maethlon gyda bwydlenni wedi'u harddangos yn glir i'r bobl eu gweld. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hoffi'r prydau a gynigir a dywedodd un person, "*mae rhywbeth i'w wneud yma bob amser, fyddwch chi ddim yn diflasu".*

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae Danybryn wedi'i leoli mewn maestref yng Nghaerdydd sy'n elwa o amwynderau lleol a chysylltiadau trafnidiaeth da. Mae'r cartref yn elwa o gael mannau cymunol da gan gynnwys sawl lolfa, ystafell fwyta, ystafell weithgareddau ac ystafell therapi. Mae yna hefyd le awyr agored hygyrch sydd â gasebo a dodrefn gardd y gall y bobl eu defnyddio fel y mynnant. Mae digon o ystafelloedd ymolchi a thoiledau ledled y cartref, ond gwelsom sedd toiled wedi torri mewn un ystafell ymolchi. Cawsom ein sicrhau y byddai hyn yn cael ei drwsio cyn gynted â phosibl. Mae Danybryn yn gynnes a chroesawgar, ac yn lân ond byddai'n elwa o waith ailaddurno drwyddo draw a thacluso cyffredinol i wneud y cartref yn fwy dymunol yn weladwy. Ni chanfuom unrhyw aroglau gwael yn y cartref ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely sengl eu hunain sy'n elwa o gyfleusterau en-suite. Anogir y bobl i wneud eu hystafelloedd mor bersonol â phosibl ac maent yn rhydd i gael mynediad iddynt fel y dymunant.

Gall y bobl fod yn sicr eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel. Ar ôl cyrraedd y cartref, gwelsom fod y brif fynedfa'n ddiogel a gwiriwyd ein dull adnabod. Gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr, cyn i ni gael mynediad. Gwelsom fod peryglon wedi'u lleihau cymaint â phosibl gyda chemegau niweidiol dan glo a chyfyngwyr ar y ffenestri. Mae offer ar gael i gynnal diogelwch a hybu annibyniaeth y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r offer hwn yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd. Mae'r cartref yn elwa o ddau lifft i alluogi'r bobl i symud yn ddiogel rhwng y lloriau, ond mae un lifft wedi torri ar hyn o bryd ac yn y broses o gael ei drwsio. Cawsom ein sicrhau y byddai'r lifft yn cael ei drwsio cyn gynted â phosibl. Cynhelir gwiriadau amgylcheddol gan gynnwys profion diogelwch nwy a thrydan pan fo angen ac mae asesiad risgiau tân cadarn ar waith. Mae gan bob preswylydd Gynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng sy'n bwysig gan fod y dogfennau hyn yn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i sicrhau bod y bobl yn medru gadael mewn argyfwng. Caiff y larymau tân eu profi'n rheolaidd a chynhelir ymarferion tân yn rheolaidd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r bobl yn elwa ar yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd ar waith. Mae Danybryn yn elwa ar unigolyn cyfrifol sy'n goruchwylio'r gwasanaeth a rheolwr sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae gan y cartref bolisïau cadarn ar waith ar gyfer rhedeg y cartref, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddaru pan fo angen. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth y gallant ddisgwyl ei dderbyn sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y gall y bobl gwyno os ydynt yn anhapus ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn unol â gofynion rheoliadol ac yn llunio adroddiad i gefnogi'r ymweliadau. Mae monitro sicrhau ansawdd yn digwydd bob chwe mis ac mae'n cynnwys barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae monitro sicrhau ansawdd yn dangos bod y darparwr wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon bob amser. Mae'r rheolwr yn deall y gofynion cyfreithiol o ran gofalu am bobl sy'n agored i niwed ac yn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i sefydliadau allanol gan gynnwys tîm diogelu'r awdurdod lleol pan fo angen. Yna, caiff yr atgyfeiriadau hyn eu storio'n ganolog a chaiff canlyniadau eu cofnodi sy'n arfer da gan ei fod yn galluogi'r atgyfeiriadau i gael eu monitro er mwyn nodi themâu a thueddiadau camdriniaeth ac ar gyfer prosesau gwersi a ddysgwyd. Roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y modd y caiff y cartref ei reoli a dywedodd un aelod o staff, "*mae'r rheolwr yn hyfryd ac yn gwneud gwaith gwych".*

Cynorthwyir y bobl gan staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda ac sy'n cael eu recriwtio mewn modd diogel. Gwnaethom archwilio detholiad o ffeiliau personél y staff a chanfod eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Gwneir cais am wiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys tystlythyrau a thystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y cynigir cyflogaeth. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn penderfynu ar addasrwydd person i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae system i sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd ond canfuom fod dwy dystysgrif wedi dod i ben ers cyfnod byr o amser, ond roedd asesiad risg wedi'i gwblhau. Rydym yn argymell bod y darparwr yn gwneud cais am adnewyddiadau yn gynt er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto a chawsom sicrwydd y byddai'n gwneud hynny yn y dyfodol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant perthnasol ac yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda i gyflawni eu rolau, ac mae'r holl staff yn cael eu sesiynau goruchwylio yn unol â gofynion rheoliadol. Mae'r sesiynau goruchwylio'n bwysig gan ei fod yn gyfle i staff drafod materion neu anghenion ymarfer mewn lleoliad ffurfiol lle y cânt eu cofnodi. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda wrth weithio yn Danybryn a gwnaethant ddweud wrthym "*Mae'n hawdd mynd at y rheolwr*" ac "*mae'n rhoi cefnogaeth gyda materion gwaith a materion personol.*"

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| | 21(1) Rhaid i’r darparwr gwasanaeth sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy’n amddiffyn, yn hyrwyddo ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi